DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,

## Crown Cottage Dental Care

1 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


| | |
|---|---|
| **Ffôn**: | 0300 062 8163 |
| **E-bost**: | hiw@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffacs:** | 0300 062 8387 |
| **Gwefan**: | www.agic.org.uk |



ISBN Digidol 978-1-4734-3931-3


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

Profiad y Claf ........ 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 17

6. Y Camau Nesaf ........ 19

Atodiad A ........ 20

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Crown Cottage Dental Care yn y Sgwâr, Bedwas, Caerffili CF83 8DY, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 1 Mehefin 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yw darganfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Crown Cottage Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bedwas yng Nghaerffili. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Practis cymysg yw Crown Cottage Dental sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm sy'n cynnwys pum deintydd (mae un dan hyfforddiant), un hylenydd, saith nyrs, dau o staff derbynfa, ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Corunau a phontydd
- Deintyddiaeth gosmetig
- Mewnblaniadau

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Crown Cottage Dental Care yn bodloni'r safonau gofal yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Fe'n hysbyswyd yn ddieithriad gan gleifion eu bod yn hynod fodlon â'r practis a safon y gofal a'r driniaeth. Fe'n hysbyswyd gan gleifion bod y staff yn groesawgar iawn a'u bod yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth fanwl am eu triniaeth. Mae'r practis yn gwahodd adborth cleifion i wella gwasanaethau.

Canfuwyd gennym nad oedd gofal a thriniaeth bob amser yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â safonau a gofynion perthnasol yn y meysydd i ni eu harolygu. Er bod safon y cyfleusterau clinigol yn eithriadol, roedd agweddau ar gadw cofnodion a oedd yn peri pryder ac yr oedd angen eu gwella. Roedd trefniadau priodol ar waith o ran offer radiograffig, cyffuriau brys, cael gwared ar wastraff, a dadheintio.

Canfuwyd tîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau. Ceir systemau i sicrhau bod gofynion staff, trefniadau cwynion, a pholisïau a gweithdrefnau'n cael eu monitro'n barhaus.

Canfuwyd gennym fod y practis yn cynnig amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Fe'n hysbyswyd yn ddieithriad gan gleifion eu bod yn hynod fodlon â'r practis a safon y gofal a'r driniaeth. Fe'n hysbyswyd gan gleifion bod y staff yn groesawgar iawn a'u bod yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth fanwl am eu triniaeth. Mae'r practis yn gwahodd adborth cleifion i wella gwasanaethau.**

Anfonwyd holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 20 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Cawsom sgwrs â thri chlaf yn ystod ein harolygiad hefyd. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng 18 mis a 35 mlynedd.

Fe'n hysbyswyd yn ddieithriad gan yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod yn fodlon gyda'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn yn y practis a'u bod wedi cael croeso gan y staff. Dywedodd nifer fach o gleifion (pump) wrthym y bu oedi cyn iddynt gael eu gweld gan y deintydd, ond dywedasant nad oedd hyn wedi achosi problem iddynt. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r holl staff yn barod iawn eu cymwynas ac yn gyfeillgar bob amser. Maen nhw'n darparu gofal rhagorol ac yn fy ngwneud yn gyfforddus bob amser."*
>
> *"Proffesiynol a chynorthwyol iawn – gwasanaeth cyflym a thriniaeth wych."*
>
> *"Mae'r staff a'r deintyddion wedi bod yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Practis da iawn."*

Pan ofynnwyd i'r cleifion am wybodaeth am driniaeth, dywedodd pob un ohonynt fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth yr oedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol ar wybodaeth am driniaeth:

> *"Llawn gwybodaeth a bob amser yn hapus i ateb fy nghwestiynau."*
>
> *"Yn esbonio'n llawn bob amser."*
>
> *"Yn cael yr holl wybodaeth."*

Roedd dwy ran o dair o'r cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau. Gwiriwyd neges peiriant ateb y practis gennym, a chanfuwyd bod gwybodaeth y tu allan i oriau wedi'i recordio er gwybodaeth cleifion. Derbyniwyd awgrym gan glaf i neges peiriant ateb alluogi negeseuon canslo cleifion i gael eu recordio pan fydd y practis ar gau, ac y gallai'r practis ei ystyried.

Mae'r practis ar agor ddydd Llun rhwng 8.30 a.m. a 7 p.m., ddydd Mawr i ddydd Iau rhwng 9 a.m. a 5 p.m., ddydd Gwener rhwng 8.30 a.m. a 2 p.m., a dydd Sadwrn gydag apwyntiad yn unig. Mae'r practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd a brys. Mae hyn yn golygu bod oriau agor yn hyblyg i ganiatáu i gleifion gael eu gweld y tu allan i oriau gwaith.

Dywedodd hanner y cleifion yn yr holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, pe bai'r angen yn codi. Nid oedd y weithdrefn gwynion wedi'i harddangos yn yr ystafelloedd aros, ac nid oedd wedi'i hesbonio'n llawn yn y taflenni gwybodaeth i gleifion nac ar wefan y practis chwaith. Er na ddywedodd unrhyw glaf bod ganddo bryder yn ystod yr arolygiad, mae hyn yn golygu na all cleifion ddod o hyd i wybodaeth am gwynion os bydd yr angen yn codi.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwynion wedi'i harddangos mewn man amlwg*.**

Gwelsom fod blwch awgrymiadau wedi cael ei ychwanegu at y ffurflen hanes meddygol, er mwyn i gleifion allu cynnig unrhyw adborth i'r practis. Fe'n hysbyswyd hefyd y ceir fforwm cyfryngau cymdeithasol lle gall cleifion adael sylwadau. Mae'r staff yn cofnodi adborth anffurfiol a llafar gan gleifion.

Er bod yr holiaduron yn cadarnhau bod cleifion yn cael eu hysbysu am y risgiau, y manteision a thriniaeth amgen, er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau cytbwys am eu triniaeth, nid oedd hyn yn amlwg yn gyson yng nghofnodion cleifion. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran triniaeth hylendid, nad oedd yn cofnodi'r cynnig rhwng triniaeth y GIG a phreifat. Rhoddir cynllun triniaeth ysgrifenedig i bob claf.

Mae amrywiaeth eang o ddeunydd hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa/ystafell aros. Gwelsom hefyd fod yr hylenydd yn rhoi gwybodaeth am hybu iechyd y geg ac, unwaith eto, mae'r practis yn defnyddio fforwm cyfryngau cymdeithasol i hybu gofal iechyd y geg iachus. Mae hyn yn golygu bod y practis yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hybu iechyd y geg da i gleifion.

Ceir gwefan practis sy'n cynnig canllawiau eglur a gwybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC na'r cyngor iechyd cymuned ar gyfer cleifion, er mwyn iddynt godi unrhyw bryderon.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â safonau Egwyddorion Hysbysebu Moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2012.***

Ceir cydgysylltydd cleifion sy'n goruchwylio apwyntiadau dilynol cleifion ac yn sicrhau gwasanaethau di-dor. Roedd hyn yn enghraifft o arfer nodedig gan ei fod yn golygu bod y practis wedi sefydlu ffordd o roi cymorth a pharhad i gleifion yn eu gofal a'u triniaeth.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Canfuwyd gennym nad oedd gofal a thriniaeth bob amser yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â safonau a gofynion perthnasol yn y meysydd i ni eu harolygu. Er bod safon y cyfleusterau clinigol yn eithriadol, roedd agweddau ar gadw cofnodion a oedd yn peri pryder ac yr oedd angen eu gwella. Roedd trefniadau priodol ar waith o ran offer radiograffig, cyffuriau brys, cael gwared ar wastraff, a dadheintio.**

### Offer/dogfennau radiograffeg

Canfuwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi, ar gael, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio. Roedd yr holl staff clinigol yn gwisgo bathodynnau dos ymbelydredd personol fel mesur diogelwch. Mae hwn yn arfer nodedig gan nad yw'n ofyniad yn y rheoliadau, ond mae'n fesur diogelwch ar gyfer staff sy'n cael eu hamlygu i ymbelydredd.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau priodol i hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio offer radiograffig. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd na chynhelir archwiliadau rheolaidd o archwiliadau pelydr-X ar hyn o bryd.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system archwilio sicrwydd ansawdd ar gyfer ansawdd delweddau pelydr-X.***

### Dadebru a chymorth cyntaf

Canfuwyd gennym fod siartiau llif manwl ar waith yn amlinellu sut i ymdrin â gwahanol argyfyngau meddygol. Roedd y staff yn wybodus am yr hyn i'w wneud pe bai argyfwng meddygol, ac mae polisi dadebru ar waith i amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau pob aelod o staff yn eglur.

Ceir cynrychiolydd cymorth cyntaf penodedig sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Mae gan y staff fynediad at offer dadebru priodol sydd wedi'i drefnu'n dda mewn argyfyngau meddygol (ymgwympiad). Ar adeg yr arolygiad, roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Mae hyn yn golygu bod staff wedi'u hyfforddi a'u paratoi i reoli argyfyngau meddygol.

**Cyffuriau brys**

Roedd cyffuriau brys wedi'u trefnu'n dda ac wedi'u storio'n ddiogel mewn lleoliad hwylus a diogel. Mae system gadarn ar waith ar gyfer monitro dyddiadau terfyn cyffuriau. Roedd padiau presgripsiwn wedi'u storio'n ddiogel hefyd, er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Roedd system ar waith ar gyfer ymateb i adweithiau niweidiol i gyffuriau a'u hadrodd. Cawsom sgwrs â rheolwr y practis a ddywedodd wrthym ei fod yn datblygu ffurflen i gofnodi unrhyw gyffuriau a roddir mewn argyfwng, y gellid ei rhoi i weithwyr meddygol proffesiynol (yn ôl y gofyn). Mae hyn yn dynodi practis sy'n flaengar ac yn agored i ffyrdd newydd o weithio.

**Trin, storio a chael gwared ar wastraff sy'n beryglus ac nad yw'n beryglus**

Caiff gwastraff ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac mae contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Mae polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri yn ddiogel.

**Dadheintio offerynnau a chydymffurfiad ag WHTM 01-05 (diwygiad 1)**

Ceir un ystafell bwrpasol yn y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol, sy'n bodoli'r safonau a nodir yng nghanllawiau WHTM 01-05 (diwygiad 1), er bod problem gydag awyru gan y nodwyd fod y tymheredd yn 22 gradd Celsius ar ddiwrnod yr arolygiad. Awgrymwyd gennym y dylid defnyddio ffan i oeri'r ystafell. Ceir system gorddrws ar gyfer anfon offerynnau heintiedig i'r ystafell dadheintio. Mae hyn yn cynorthwyo i wahanu offerynnau glân a budr ac yn rheolaeth dda o le. Roedd hyn yn enghraifft o arfer arloesol. Roedd y staff yn defnyddio cynwysyddion wedi'u selio'n briodol i gludo offerynnau i'r gorddrws ac o'r ystafell ddadheintio i'r ystafelloedd triniaeth.

Mae sinciau golchi dwylo penodol ar gael, ac mae'r staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol. Caiff yr holl offerynnau eu bagio ar ôl eu sterileiddio a'u dyddio gyda dyddiad proses. Roedd yr holl offerynnau a archwiliwyd o fewn eu dyddiadau terfyn, ac mae system fewnol ar waith ar gyfer gwirio hyn, fel bod offerynnau'n cael eu defnyddio yn unol â chyfnodau amser penodedig priodol. Mae hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i ddiogelu cleifion rhag croes-heintio.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant dilysadwy priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r holl staff sy'n dadheintio offerynnau dderbyn hyfforddiant cydnabyddedig dilysadwy priodol.***

Gwelsom fod llyfrau cofnodi ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal yn briodol. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau safonol a gynhelir ar ddechrau a diwedd pob diwrnod.

Er i ni weld bod y practis wedi cynnal archwiliadau o'i ofynion rheoli heintiau, nid oedd y rhain yn cyd-fynd â chanllawiau WHTM 01-05.

## Cyfleusterau clinigol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a chanfuwyd gennym eu bod yn lân, eu bod yn cynnwys offer digonol, ac yn drefnus, gyda'r holl offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff.

Roedd offerynnau ac offer deintyddol digonol, y cwbl mewn cyflwr da, wedi'u storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Canfuwyd cyflenwad digonol o eitemau untro a chyfarpar diogelu gennym.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod cywasgydd (dyfais i gyflenwi aer glân i bweru teclynnau llaw deintyddol ac offerynnau deintyddol amrywiol eraill) yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyn fel yr argymhellir gan y gweithgynhyrchydd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i wirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod cyfleusterau clinigol o safon uchel iawn. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad y Gymdeithas Atal Heintiau ac wedi nodi rhai meysydd i'w gwella. Trafodwyd y meysydd hyn gyda rheolwr y practis, a chytunwyd y byddai'r practis yn hysbysu AGIC pan fo'r gwelliannau wedi cael eu gwneud.

## Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, roedd safon cofnodion cleifion yn y practis yn peri pryder, gyda gorddibyniaeth ar dempledi nad yw'n hybu gofal unigoledig ac yn achosi anghysondebau o ran cofnodi archwiliadau sylfaenol. Gwelsom anghysondebau hefyd rhwng y broses o gofnodi archwiliadau a gynhaliwyd a'r testun rhydd a ychwanegwyd ar waelod y templed.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau'n cael eu hunigoli a bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cofnodi'n gadarn.***

Er bod hanesion meddygol a chymdeithasol cleifion yn cael eu diweddaru yn ystod pob ymweliad i sicrhau y gellid cofnodi ac ymateb i unrhyw newidiadau, canfuwyd gennym nad oedd y cofnodion wedi cael eu cydlofnodi gan ddeintydd. Nodwyd gennym fod hwn yn faes o arfer gorau, gan ei fod yn sicrhau bod y deintydd wedi gweld unrhyw newidiadau.

Gwelsom gynlluniau triniaeth, ond roedd achlysuron pan welsom gostau preifat wedi'u cofnodi ar gynlluniau triniaeth y GIG hefyd.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cynlluniau triniaeth y GIG a phreifat yn ddogfennau ar wahân er mwyn gwneud y costau'n eglur i gleifion.***

Canfuwyd anghysondeb gennym yng nghofnodion cleifion o ran:

- Y cyfiawnhad dros gyfnodau ailalw (pa mor aml y mae angen i glaf ddychwelyd ar gyfer archwiliad), sy'n chwe mis bron bob amser. Mae hyn yn awgrymu bod pob claf angen yr un cyfnod rhwng ymweliadau ac nid yn unol â'u hanghenion unigol.
- Nid oedd cynlluniau triniaeth wedi'u llofnodi bob amser.
- Methu â chofnodi trafodaeth o opsiynau triniaeth bob amser.
- Methu â chofnodi archwiliadau periodontol bob amser.
- Ailalw oedd y rheswm am fynychu bron bob amser (hyd yn oed ar gyfer cleifion newydd), sy'n golygu nad oedd templedi'n cael eu hunigoli.
- Dim presgripsiwn ysgrifenedig wrth atgyfeirio i'r hylenydd.

Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o gadw cofnodion rhagorol gyda'r deintydd dan hyfforddiant. Roedd y canfyddiadau hyn yn peri pryder gan fod y practis wedi cynnal archwiliad o'r broses cadw cofnodion ddechrau'r flwyddyn, a nodwyd problemau tebyg. Mae hyn yn golygu nad oedd y practis wedi rhoi'r hyn a ddysgwyd o'r cylch archwilio ar waith.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis wella'r broses o gadw cofnodion yn y meysydd a amlygir.***

Gwelsom hefyd nifer fawr o atgyfeiriadau at yr hylenydd ar gyfer triniaeth sydd ar gael gan y GIG, a godwyd fel rhai preifat.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis beidio â defnyddio triniaeth breifat ar gleifion y GIG pan fod triniaeth y GIG ar gael, oni bai y gofynnir am hyn gan y claf.***

Oherwydd y pryderon ynghylch costau hylenydd a'r defnydd o gynlluniau triniaeth y GIG i godi am driniaeth breifat, rhannodd AGIC y wybodaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuwyd tîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddogaethau. Ceir systemau i sicrhau bod gofynion staff, trefniadau cwynion, a pholisïau a gweithdrefnau'n cael eu monitro'n barhaus.**

### ***Staff***

Ceir dau brif ddeintydd sy'n berchen ar y practis. Mae'r practis yn cynnig gwasanaethau preifat a'r GIG. Rheolwr practis sy'n gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd y staff i ni siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn canolbwyntio ar gleifion, ac fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Roedd yr holl ddeintyddion wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac mae ganddynt gontractau cyflogaeth. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Trafodwyd hyn gyda'r ddau brif ddeintydd, a gytunodd i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddaru eu harchwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i holl staff y practis gael archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, ceir gofyniad bod y deintydd sy'n cyflogi yn cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau addasrwydd staff ar gyfer cyflogaeth.

Gwelsom fod tystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion, yn cadarnhau eu cofrestriad, wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol, ac roedd yr holl staff clinigol yn meddu ar yswiriant indemniad ar gyfer eu harfer clinigol.

Canfuwyd tystiolaeth gennym o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwblhawyd gan staff clinigol. Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi yn berthnasol i'w swyddogaethau. Gwelsom ffeil sefydlu yn cynnwys y wybodaeth berthnasol, a chaiff ei defnyddio i gynorthwyo staff newydd i gynefino â'u swyddi.

Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd staff, a dywedodd staff wrthym y cynhelir cyfarfodydd misol ac y'u harweinir gan y deintyddion. Ceir bocs awgrymiadau yn yr ystafell staff ar gyfer codi unrhyw bryderon yn ddienw. Fe'n hysbyswyd gan y staff na ddefnyddir y cyfarfodydd i drafod gwella arferion. Awgrymwyd

gennym y gellid defnyddio'r fforwm hwn fel ffordd ddelfrydol i staff godi pryderon a chofnodi'r hyn a ddysgir, ac y gellid gwella'r gwasanaeth a ddarperir o ganlyniad.

Mae system ar waith ar gyfer gwerthusiadau ffurfiol, er y gelwir y rhain yn sesiynau un i un ac y'u cynhelir bob mis. Mae gwerthusiadau (sesiynau un i un) yn ffordd bwysig o gefnogi staff yn ffurfiol i fyfyrio ar eu gwaith a nodi anghenion cymorth a datblygiad proffesiynol.

**<u>Polisïau a gweithdrefnau</u>**

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol a oedd wedi'u teilwra ar gyfer y practis ac yn berthnasol i amgylchedd y practis yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd rhai polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu ond heb eu dyddio, ac roedd rhai meysydd bach yr oedd angen sylw o ran rhai polisïau. Roedd tystysgrifau a chofnodion cynnal a chadw ar gael hefyd. Mae hyn yn golygu bod archwiliadau priodol wedi cael eu cynnal i ddarparu amgylchedd diogel yn y meysydd i ni eu harchwilio.

**<u>Amddiffyn plant ac oedolion</u>**

Canfuwyd gennym fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith, ond nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol i wneud atgyfeiriadau.

Nid oedd unrhyw staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion agored i niwed ar y pryd, er y trefnwyd i dri fynychu hyfforddiant drwy'r bwrdd iechyd yn y dyfodol agos iawn. Rhagwelwyd y byddai'r tri aelod o staff hyn yn cyflawni swyddogaeth staff arwain. Roedd polisi ar waith, ac awgrymwyd y dylid ychwanegu manylion cyswllt lleol, i alluogi staff i wneud atgyfeiriad yn rhwydd, pe bai'r angen yn codi.

**<u>Cwynion</u>**

Edrychwyd ar y weithdrefn gwynion yn fanwl, a chanfuwyd gennym ei bod yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'[4] y GIG, ac eithrio'r ffaith nad oedd dau fanylyn cyswllt ar gael. Mae angen i'r practis ychwanegu manylion cyswllt

---

[4] Nod **Gweithio i Wella** oedd ei gwneud yn haws i gleifion a gofalwyr godi pryderon. Cyflwynodd un dull mwy integredig gan ddod â rheolaeth cwynion, digwyddiadau a honiadau ynghyd, yn seiliedig ar yr egwyddor o 'ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda'.

AGIC a'r Cyngor Iechyd Cymuned at y weithdrefn er mwyn cydymffurfio â gofynion y GIG a gofynion dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Fe'n hysbyswyd bod cwynion yn cael eu cofnodi'n eglur, ynghyd â manylion y camau yr oedd y practis wedi'u cymryd i fynd i'r afael â chwynion. Cedwir cwynion yn ganolog, ar wahân i gofnodion cleifion. Caiff sylwadau a phryderon llafar eu cofnodi mewn cofnod canolog hefyd. Mae hyn yn golygu y gall y practis chwilio am dueddiadau a phatrymau dros amser fel ffordd ychwanegol o wella'r gwasanaeth.

Fe'n hysbyswyd gan staff eu bod yn gyfforddus yn codi pryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol â'r deintyddion. Mae polisi chwythu'r chwiban ar waith y gall y staff ei ddefnyddio i godi ac uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Canfuwyd gennym fod y practis yn cynnig amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.**

Mae'r practis wedi'i leoli yn nhref Bedwas yn sir Caerffili. Roedd yr adeilad wedi cael ei ailwampio'n sylweddol i safon uchel iawn. Mae'r practis wedi'i leoli dros dri llawr. Mae'r dderbynfa, yr ystafelloedd triniaeth, ystafell y peiriant pelydr-X, a'r toiled i gleifion, sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, ar y llawr daear. Ceir tair ystafell driniaeth, toiled i gleifion, ac ystafell dawel ar gyfer trafodaethau preifat ar y llawr cyntaf, ac mae ystafell rheolwr y practis a'r ystafell staff wedi'u lleoli ar y trydydd llawr. Mae lleoedd parcio'n brin, ond ceir maes parcio am ddim o fewn pellter cerdded byr.

Canfuwyd gennym fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn y tu mewn a'r tu allan. Dan do, roedd yr amgylchedd wedi'i oleuo, ei wresogi a'i awyru'n briodol, ac yn lân ac yn daclus.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion wedi'i harddangos y tu mewn a'r tu allan. Ceir arwydd y tu allan i'r practis yn nodi enwau a chymwysterau pob deintydd, oriau agor, a rhifau brys i gleifion eu defnyddio. Roedd rhestr brisiau ar gyfer cleifion y GIG wedi'u harddangos yn eglur yn y dderbynfa, ond nid oedd unrhyw restr brisiau ar gyfer triniaeth breifat.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis arddangos prisiau triniaeth y GIG a phrisiau triniaeth breifat.***

Nid oedd unrhyw hysbysfwrdd adnabod staff i'w weld yn y practis. Mae'n rhaid i'r hysbysfwrdd hwn ddangos enwau, swyddogaeth a rhif Cyngor Deintyddol Cyffredinol (os yw'n berthnasol) y tîm staff.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu hysbysfwrdd adnabod staff.***

Ceir toiled a chyfleusterau newid ar wahân ar gyfer y staff. Roedd y toiledau'n amlwg yn lân, ac roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael ynddynt i atal croes-heintio.

Ceir ystafelloedd aros ar bob llawr, sydd o faint priodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd gan staff y dderbynfa ymwybyddiaeth dda o sut i sicrhau cyfrinachedd cleifion. Roedd pethau i'w darllen ac amrywiaeth eang o gyngor a phosteri a thaflennu hybu iechyd ar gael yn yr ystafelloedd aros.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Mae mesurau diogelwch priodol ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod.

Roedd gohebiaeth bapur cleifion dan glo yn ddiogel, a chaiff cofnodion electronig eu hategu'n feunyddiol. Mae hyn yn golygu bod y practis yn cymryd camau priodol i ddiogelu gwybodaeth cleifion.

Gwelsom dystysgrif atebolrwydd cyhoeddus y practis wedi'i harddangos yn yr ystafell staff. Hysbyswyd y practis y dylid arddangos hon mewn rhan gyhoeddus o'r practis.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran y canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Crown Cottage Dental Care yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Crown Cottage Dental Care

## Dyddiad yr Arolygiad: 1 Mehefin 2015

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwynion wedi'i harddangos mewn man amlwg.<br><br>[Gweithio i Wella 2011; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.5; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, rhan VI, 15] | Diwygiwyd y poster presennol, ac mae'n dangos yr holl wybodaeth erbyn hyn. | Justine Jakeway | Cyflawnwyd eisoes. |
| Tudalen 8 | Mae angen i'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â safonau Egwyddorion Hysbysebu Moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2012. | Mae'r wefan bresennol yn bodloni'r safonau hysbysebu. Byddwn yn ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r cyngor iechyd cymuned. | Angela Martin | Awst 2015 |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| Tudalen 9 | Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system archwilio sicrwydd ansawdd ar gyfer ansawdd delweddau pelydr-X. [Safon Iechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000] | Ar waith eisoes fel yr esboniwyd i'r arolygydd. Cynhelir archwiliad parhaus gyda rhaglen ddeintyddol SOE. | | |
| Tudalen 11 | Mae'n rhaid i'r holl staff sy'n dadheintio offerynnau dderbyn hyfforddiant cydnabyddedig dilysadwy priodol. [Safon Iechyd a Gofal 2.4; WHTM 01-05-2.4o] | Mae'r holl staff nyrsio, ac eithrio dau a gyflogwyd yn ddiweddar, wedi derbyn hyfforddiant dilysadwy ym mis Chwefror 2013. Caiff hyfforddiant ei drefnu ar gyfer y staff sy'n weddill. | Justine Jakeway | Gweithredu ar unwaith |
| Tudalen 12 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau'n cael eu hunigoli a bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cofnodi'n gadarn. [Safonau Iechyd a Gofal 3.5, 4.2, 6.1; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol] | Bydd archwiliad yn cael ei ail-gynnal gan roi sylw i'r canfyddiadau ar unwaith. Bydd y practis yn defnyddio awgrymiadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei hychwanegu ar adeg apwyntiad. | James Brown ac Andrew Martin | Gweithredu ar unwaith |
| Tudalen 12 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cynlluniau | Dim dryswch i gleifion yn y maes hwn fel y nodir yng Ngrid Sylwadau'r Practis Deintyddol. | Justine Jakeway | Gweithredu ar unwaith |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | triniaeth y GIG a phreifat yn ddogfennau ar wahân er mwyn gwneud y costau'n eglur i gleifion.<br><br>[Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.7.2, 1.7.3, 1.7.4] | Byddwn bellach yn argraffu cynlluniau triniaeth y GIG a phreifat ar wahanol dudalennau. | Alice Wright | |
| Tudalen 12 | Mae'n rhaid i'r practis wella'r broses o gadw cofnodion yn y meysydd a amlygir.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5, 4.2; Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4] | Byddwn yn ail-gynnal yr archwiliad cadw cofnodion fel y nodir uchod. | James Brown<br>Andrew Martin | Gweithredu ar unwaith |
| Tudalen 13 | Mae'n rhaid i'r practis beidio â defnyddio triniaeth breifat ar gleifion y GIG pan fod triniaeth y GIG ar gael, oni bai y gofynnir am hyn gan y claf.<br><br>[Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.7.4] | Mae cynlluniau triniaeth y GIG yn eglur i'r claf. Maent yn cael opsiynau eglur a chynlluniau triniaeth ysgrifenedig; nid yw cleifion erioed wedi cael eu camarwain, ac mae hwn yn sicr yn gyhuddiad ar gam.<br><br>Cadarnhawyd hyn pan holwyd cleifion gan yr arolygydd. | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Dim angen gwella. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen 17 | Mae'n rhaid i'r practis arddangos prisiau | Roedd rhestr brisiau'r GIG wedi'i harddangos eisoes. Arddangosir rhestr ffioedd preifat erbyn | Justine Jakeway | Cyflawnwyd eisoes. |

| Rhif Tudalen | Gwelliant sydd ei Angen | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | triniaeth y GIG a phrisiau preifat. [Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4.1] | hyn. | | |
| Tudalen 17 | Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu hysbysfwrdd adnabod staff. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.10] | Mae hysbysfwrdd adnabod staff yn cael ei arddangos yn y brif dderbynfa erbyn hyn. | Justine Jakeway | Cyflawnwyd eisoes. |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (printiwch):** ..........................................................................................

**Teitl:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** ..........................................................................................